niweidio'r plentyn. Sylweddolir hefyd tra bydd y plentyn yn datblygu y bydd anghenion y ferch yn newid ac y gall fod angen newidiadau ffisegol yn y gweithle i ddarparu ar gyfer y newidiadau hynny.

Ar ôl i'r fam fynd yn ôl i'r gwaith ar ôl geni'r plentyn, mae'n bwysig sylweddoli y gall y gweithle effeithio ar y plentyn newydd ei eni, yn enwedig tra bydd y fam yn bwydo ar y fron.

Mae'r Polisi hwn yn nodi'r gofynion a osodir ar y Brifysgol a'i Cholegau, Gwasanaethau Proffesiynol, Staff a Myfyrwyr ar gyfer mamau newydd neu famau beichiog.

Polisi Prifysgol Bangor, cyn belled ag y bo'n ymarferol bosib, ond yn unol â'r gofynion statudol perthnasol ac arferion da, yw sicrhau iechyd a diogelwch staff, myfyrwyr ac ymwelwyr i'r brifysgol.

Pob coleg, ysgol a gwasanaeth proffesiynol:

Holl staff a myfyrwyr

Ymwelwyr.

Dylai myfyrwyr hefyd gysylltu â Gwasanaethau Myfyrwyr cyn gynted ag y bo modd i drafod eu hanghenion a'r gefnogaeth sydd ar gael iddynt.

Dylai aelodau staff gysylltu ag Adnoddau Dynol cyn gynted ag y bo modd ynghylch eu beichiogrwydd er mwyn gallu rhoi trefniadau yn eu lle i sicrhau bod cyngor ariannol a chontractol addas yn cael ei ddarparu.

Bydd Iechyd a Diogelwch hefyd yn cysylltu â phob aelod staff sydd wedi rhoi gwybod i Adnoddau Dynol a rhoddir y cyfle iddynt drafod unrhyw faterion yn ymwneud â'r gweithle a allai effeithio ar y beichiogrwydd. Mae'n bosib y cysylltir hefyd â myfyrwyr ôl-radd ymchwil sy'n gweithio gyda deunyddiau a allai fod yn beryglus.

Dylai Staff a Myfyrwyr sy'n bwydo ar y fron neu sy'n dychwelyd i'r gwaith/astudio o fewn 6 mis ar ôl rhoi genedigaeth hefyd roi gwybod i'w Tiwtor Personol neu eu Rheolwr Llinell am hyn fel y gellir cwblhau'r asesiad risg.

Rhaid gwneud pob ymdrech drwy'r asesiad risg i gefnogi unigolion fel eu bod yn cael eu trin yn gyfartal.  Fodd bynnag, mewn rhai achosion mae'n bosib y bydd angen trin 'Mamau Newydd a -anedig

rhag effeithiau andwyol posibl y gweithle. Mewn amgylchiadau o'r fath bydd y sawl yr effeithir arnynt yn rhan o'r asesiad, a lle bo angen, gofynnir am gyngor Iechyd a Diogelwch.

Nodir y dylid defnyddio asesiadau risg iechyd a diogelwch fel trefn i alluogi staff a myfyrwyr i ymgymryd â'u tasgau yn ddiogel ac nid fel trefn i atal gweithgaredd dim ond am fod elfen o risg yn bodoli. Dylid gwneud pob ymdrech i gefnogi staff a myfyrwyr i'w galluogi i ymgymryd â'u tasgau yn yr un modd â'u cyfoedion.

Pwrpas yr asesiad yw ceisio sicrhau diogelwch y fam a'r plentyn ac weithiau bydd yn ofynnol gwneud